



Health and Care
Research Wales
Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru

Beth yw'r dull mwyaf effeithiol o gynnal hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (GBCG/MECC)? Adolygiad Cyflym

Hydref 2024



Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cynhaliwyd yr adolygiad gan Technoleg Iechyd Cymru

Cyfranwyr yr Adroddiad

Tîm Adolygu

Leona Batten, Greg Hammond, Clare England and David Jarrom, Technoleg Iechyd Cymru

Elizabeth Gillen, Canolfan Gofal Seiliedig ar Dystiolaeth Cymru

Ystyriaethau Economaidd

Rhiannon Tudor Edwards, Jacob Davies

Cyngor Methodolegol

Ruth Lewis

Tîm y Ganolfan Dystiolaeth

Adrian Edwards, Ruth Lewis, Alison Cooper, Micaela Gal a Liz Doe yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, adolygu adroddiadau a golygu.

Partner Cyhoeddus

Nathan Davies

Rhanddeiliaid

Rhian Meaden, Charlotte Cullum, Megan Elliott, Iechyd y Cyhoedd CTUHB

Adolygiad wedi'i gyflwyno i'r Ganolfan Dystiolaeth: 15 Medi 2023

Cyfarfod ymgynghori â Rhanddeiliad: 22 Mai 2024

Adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi gan y Ganolfan Dystiolaeth: Hydref 2024

Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel: Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Beth yw'r dull mwyaf effeithiol o gynnal hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (RR0032). Hydref 2024.

Ymwadiad: Safbwyntiau'r awduron sy'n cael eu mynegi yn y cyhoeddiad hwn, nid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau

Beth yw'r dull mwyaf effeithiol o gynnal hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswilt Gyfrif (GBCG/MECC)? Adolygiad Cyflym

Rhif yr adroddiad - RR0032 (Hydref 2024)

CRYNODEB GWEITHREDOL

Beth yw Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym (RR) yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrro neu hepgor rhai cydrannau i greu'r dystiolaeth i roi gwybod i randdeiliaid yn brydlon, gan dynnu sylw at ragfarn ar yr un pryd.

Ar gyfer pwy mae'r Adolygiad Cyflym hwn?

Cafodd cwestiwn yr adolygiad ei awgrymu gan Dîm Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Bwriad yr adolygiad yw rhoi gwybod i'r rhai sy'n gyfrifol am gomisiynu ac arwain hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswilt Gyfrif (GBCG/MECC).

Cefndir/Nod yr Adolygiad Cyflym

Mae'r rhaglen MECC yn annog staff i gael trafodaethau byr ar newid ymddygiad gyda defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n defnyddio'r rhyngweithio bob dydd rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl, neu rai mewn sefydliadau eraill gan gynnwys y sector nid er elw, i'w cefnogi nhw i roi newidiadau positif ar waith i'w hiechyd corfforol a meddyliol a lles. Nod yr adolygiad hwn yw asesu pa elfennau neu fathau o hyfforddiant MECC, neu ymyriadau tebyg, sy'n fwyaf effeithiol ac sy'n cael eu ffafrio gan y rhai a fyddai'n gweithredu MECC yn ymarferol. Mae'n bosib defnyddio'r canfyddiadau i lywio'r broses o ddylunio hyfforddiant i'r dyfodol, neu ddiweddarau'r cynnig hyfforddiant presennol. Gallent hefyd wella cysondeb ar draws byrddau iechyd.

Canlyniadau'r Adolygiad Cyflym

Diweddarwch y sylfaen dystiolaeth

- Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a oedd ar gael hyd at fis Mehefin 2024. Roedd dyddiadau cyhoeddi tystiolaeth yn amrywio rhwng 2013 a 2023.

Maint y sylfaen dystiolaeth

- Cafodd 11 astudiaeth eu dewis i'w cynnwys yn yr adolygiad hwn; roeddent oll yn canolbwyntio ar sefydliadau gofal iechyd.
- Cynhaliwyd 10 astudiaeth yn y DU (wyth yn Lloegr a dim yng Nghymru), a chynhaliwyd un astudiaeth yn Awstralia. Roedd pob astudiaeth yn cynnwys gweithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd neu ofal iechyd, gyda dwy astudiaeth hefyd yn cynnwys hyfforddeion oedd yn gweithio i awdurdod lleol.
- Roedd dyluniadau'r astudiaeth yn cynnwys cyn profi/ar ôl profi, ar ôl profi yn unig, dyluniadau astudiaeth ansoddol (e.e. cyfweiliadau, arolygon), ac astudiaethau dulliau cymysg. Nid oedd unrhyw astudiaeth yn cynnwys grŵp rheoli ar wahân.
- Roedd pump o'r astudiaethau yn defnyddio arolygon neu holiaduron yn unig, tri'n defnyddio cyfweiliadau yn unig (naill ai gydag unigolion neu grwpiau ffocws), roedd dau'n defnyddio cyfuniad o arolygon a chyfweiliadau, a buodd un astudiaeth yn cynnal arolygon, cyfweild ac arsylwi cyfranogwyr.

Canfyddiadau allweddol a sicrwydd tystiolaeth

- Cafwyd **tystiolaeth gyson i ddangos bod hyfforddiant yn cynyddu hyder hyfforddeion a defnydd o dechnegau MECC** yn syth ar ôl bod ar yr hyfforddiant. Roedd rhywfaint o dystiolaeth yn dangos bod **y gwelliannau hyn yn cael eu cynnal o leiaf hyd at flwyddyn yn ddiweddarach** er gwaethaf gostyngiad bach. Doedd dim dystiolaeth ar yr effaith tymor hirach, heblaw y byddai **hyfforddiant gloywi yn ddefnyddiol**. Hefyd, doedd dim dystiolaeth yn asesu a fyddai gwelliannau i hyder hyfforddeion a chymhwysedd yn cael unrhyw effaith ar newid ymddygiad defnyddwyr gwasanaeth a deilliannau.
- Roedd **awgrym y byddai hyfforddiant wyneb yn wyneb yn well na hyfforddiant ar-lein**. Er hyn, roedd hyfforddiant ar-lein yn well gan rai hyfforddeion oherwydd hyblygrwydd.
- **O ran rhwystrau i fynd i hyfforddiant MECC**, nodwyd teimlad **nad oedd digon o amser, a diffyg cymorth rheoli**.
- **Roedd y rhwystrau o ran defnyddio MECC** yn cynnwys teimlad **bod dim digon o amser, diffyg cymorth trefnu a rheoli, ac ofn pechu cleifion, a diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth i'r dyfodol** i gyfeirio defnyddwyr gwasanaeth i ddilyn trafodaethau ymddygiad iach.
- Roedd y **dystiolaeth yn nodi y gellid goresgyn rhwystrau i hyfforddiant MECC a defnyddio MECC** drwy ddarparu gwybodaeth am wasanaethau cymorth i'r dyfodol, a gwell cefnogaeth trefnu a rheoli i fynd i hyfforddiant MECC a'i ddefnydd yn ymarferol.

Goblygiadau Polisi ac Ymarfer

- Gall hyfforddiant MECC fod o fudd o ran gwella hyder a chymhwysedd hyfforddeion wrth ddefnyddio MECC. Er hyn, mae rhwystrau sy'n cael eu nodi'n gyson o ran mynd ar hyfforddiant a defnyddio MECC yn ymarferol, fel sydd wedi'i grynhoi uchod. Er bod yr adolygiad hwn wedi nodi rhai ffyrdd posibl o oresgyn rhwystrau o ran mynd ar hyfforddiant MECC a'i ddefnyddio'n ymarferol, nid yw'r ffyrdd gorau a mwyaf effeithiol o'u goresgyn yn glir, ac mae angen newid diwylliant mawr ar lawer ohonynt.
- Gall y diffyg dystiolaeth o ran a yw newidiadau i hyfforddiant MECC yn effeithio ar ymddygiad defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau yn y pen draw gael effaith ar effeithiolrwydd newidiadau i hyfforddiant MECC a diwylliant yn y gweithle.
- Mae'r adolygiad hwn yn awgrymu ei bod hi'n debyg mai hyfforddiant safonol gyda'r gallu i deilwra i anghenion lleol yw'r dewis a ffefrir. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ystyried unrhyw ddiweddariadau i fodiwlau hyfforddiant MECC Cymru.

Goblygiadau Ymchwil a Bylchau Tystiolaeth

- Mae angen ymchwilio ymhellach i effaith MECC ar ymddygiad cleifion a'u canlyniadau yn y pen draw, a sut mae'r rhain yn newid ar ôl hyfforddiant yn y tymor byr a'r tymor hir.
- Byddai ymchwil penodol i hyfforddiant MECC sydd ar waith ledled Cymru, sut mae pobl yn rhyngweithio gyda'r hyfforddiant ac yn ei ddefnyddio, a beth sydd yn eu barn nhw yn ddefnyddiol ac yn berthnasol yn bendant yn beth da.
- Nodi dulliau i oresgyn y rhwystrau penodol a gwella'r galluogwyr, yn enwedig o ran annog cymorth sefydliadol a rheoli ar gyfer hyfforddiant MECC a'i ddefnyddio.

Ystyriaethau Economaidd

Mae canllaw gwerthuso MECC Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2020 yn argymhell creu achos busnes ar gyfer rhaglenni MECC sy'n cynnwys costau darparu ac yn ystyried gwerth am arian wrth weithredu.

Mae'r rhan fwyaf o ddogfennau polisi yn trafod cost-effeithiolrwydd rhaglenni MECC yn dyfynnu o ganllaw iechyd cyhoeddus 2014 y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICA) (PH49). Fodd bynnag, nid yw'r canllaw yn cyfeirio'n uniongyrchol i raglenni MECC, ond yn hytrach newid ymddygiad ac ymyriadau cyfeirio bras.

[Darllenwch yr adroddiad llawn](#)

Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Mae ein timau ymroddedig yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd, gofal cymdeithasol, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd i ddarparu ymchwil hanfodol i fynd i'r afael â heriau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n wynebu Cymru.

Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn ateb cwestiynau allweddol i wella polisi a darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Ynghyd â'n partneriaid cyd-weithio, rydym ni'n cynnal adolygiadau o dystiolaeth bresennol ac ymchwil newydd, i lywio anghenion polisi ac ymarfer, gan ganolbwyntio ar sicrhau budd y byd go iawn a budd cyhoeddus sy'n cyrraedd pawb.

Cyfarwyddwyr: Yr Athro Adrian Edwards

Cyfarwyddwyr Cyswllt Dr Alison Cooper, Dr Natalie Joseph-Williams, Dr Ruth Lewis



@tystiolaethcym



healthandcareevidence@cardiff.ac.uk



www.researchwalesevidencecentre.co.uk/cy